

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 9fed Fedi 2019

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Dyfed Jones. Siân Godbert, Marion Bettenev, Janet Charlton Cyng Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriad – Neil Pringle, Nick Corney
Datgan diddordeb – Dim datganiad o ddiddordeb

Mrs Marion Bettenev

Dyweddodd Mrs Marion Bettenev gan ei bod yn symud o'r ardal i Wiltshire ei bod yn ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned. Diolchodd y Cadeirydd Gareth Wynne iddi am ei chyfnod hir o wasanaeth gwerthfawr i'r gymuned gan ddymuno'r gorau iddi yn y dyfodol

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 8fed Orffennaf 2019.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clercc at yr adroddiad canlynol gan SCHG Jonathan Thomas;

10 digwyddiad amheus

2 ymddwyn yn wrthgymdeithasol

11 digwyddiad yn berthnasol i'r briffordd

Roedd hefyd achosion o feics modur a beics cwad yn creu problemau yn y caeau ayb

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair.

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan

Datblygu cyfleusterau

Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

[1.3] Colofn Golau Ffordd yr Orsaf

Deallwyd fod APCE wedi cadarnhau y bydd y golofn olau wedi ei hatgyweirio erbyn diwedd mis Medi

[1.4] Siop Ultimate Outdoors / Cynnal y Llwybr Cerdded

Deallwyd trwy y Cyng E Roberts fod y llwybr wedi ei dacluso a nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth yr Adran Briffyrdd.

[1.5] Goleuadau Nadolig

Dyweddodd y clercc fod y goleuadau wedi eu harchebu.

[1.6] Gwaharddiad Parcio Ffordd Craiglan/ Bunkhouse Vagabond

Cyfeiriodd y clercc at sylwadau oddiwrth Mr Cawthra o Vagabond yn ceisio eglurhad i

wrthwynebiad y Cyngor Cymuned i'w gynnig i ddarparu gwasanaeth pizza o'r lleoliad.

Dyweddodd y clercc ei fod wedi ateb yn egluro nad oedd y Cyngor wedi gwrthwynebu ond bod pryder y byddai mwy o draffig yn creu trafferthion parcio os i'r cynnig gael ei gymeradwyo.

[1.7] Gwrych / Tan Dinas

Deallwyd fod y perchennog wedi gohirio torri'r gwrych gan fod yr adar yn nythu, ond fod y gwrych wedi ei dorri erbyn hyn.

[1.8] Ffordd yr A5 /Rhaeadr Ewynnol Diogelwch y Cyhoedd

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts fod asiant yr adran briffyrdd ar hyn o bryd yn paratoi adroddiad ynglŷn â gwrthdrawiad traffig ayb.

[1.9] Siop Sglodion

Deallwyd fod pridd wedi ei roi i'w guddio. Cytunodd y Cyng E Roberts i wneud ymholiadau pellach.

Y brif Agenda

[2] Materion Cynllunio

[a] Adeiladu tŷ ayb. Tir ger Bwthyn Gwydyr Betws-y-Coed

[b] Newid blaen y siop ac arwydd ffascia sydd wedi ei oleuo. Y Caban Coed, Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed

[c] Cais ôl weithredol ar gyfer newidiadau i'r fynedfa. 2 Stryd y Felin, Betws-y-Coed. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r tri cais uchod.

[2.1] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Gorffennaf / Awst2019

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Gorffennaf 2019.

[2.2] Cynigion gan y Cyng Neil Pringle

Cyfeiriodd y clerc at nifer o gynigion. Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes y cyfarfod nesaf.

[2.3] Mynwent Erw Hedd

Nodwyd cynigion gan Mr Steven Teal ar gyfer y fynwent ynghyd hefyd ac argymhellion Mrs Gladys Harrison. Penderfynwyd dilyn arweiniad Mr Teale ac os yn bosib cynnwys argymhellion Mrs Harrison yn amodol ar ddarpariaeth cyllid

Y clerc i anfon gair at Mr Teale fod y Cyngor yn barod i gyfrannu tuag at gostau rhesymol.

[2.4] Baw Cwn ar y Triongl Glaswellt yn Bentre' Du

Dywedodd y clerc fod Cyngor BS Conwy wedi cytuno i osod arwyddion ychwanegol ynglŷn â baw cwn. Y clerc hefyd i drefnu fod y cafn blodau yn cael ei dacluso yn rheolaidd yn y dyfodol

[2.5] Clwb Rotari Diwrnod Polio'r Byd 24ain Hydref 2019

I geisio codi ymwybyddiaeth ynglŷn â menter cael gwared ar afiechyd polio trwy'r byd. Y clerc i drefnu hysbysiad ar safle we'r Cyngor.

[2.6] Ffilmio yn y Rhaeadr Ewynnol

Penderfynwyd gosod y costau canlynol am ffilmio yn y Rhaeadr

Yr awr gyntaf £100.00, oriau canlynol £50.00 yr awr. Ffilmio am fwy na diwrnod yn amodol i gytundeb. Pob cais hefyd i gael cymeradwyaeth Ystâd Gwydyr.

[2.7] Cae Peldroed Rhyd-y-Craeau

Cyfeiriodd y clerwr at gais am gyfraniad i wella'r cae. Penderfynwyd ystyried y mater eto pan fydd cyfanswm yr arian wedi ei gasglu.

[2.8] Gwaith Diogelwch Cronfeydd Gwydyr

Yn dilyn cwmpwr Dawnus Constuction mae cwmni William Hughes wedi ei benodi i gwblhau'r gwaith diogelwch. Bydd y gwaith yn ail ddechrau yn Llyn Cyffty, Llyn Sarnau a Goddiionduon

[2.9] Meinciau Cae Llan

Penderfynwyd wrth ystyried ceisiadau yn y dyfodol, bod pob mainc i fod wedi ei gwneud allan o blasting sydd wedi ei ail gylchu.

[3] Cyfeillion Eglwys Saint Mihangel

Nodwyd oherwydd amgylchiadau annisgwyl bu i'r ŵyl flodau ar y 6ed/8fed Fedi gael ei chanslo. Bydd gwasanaeth carolau yng ngholau kannwyll ar y ddydd Sul y 29ain Ragfyr am 6.00 yh.

Cadeirydd _____